| | |
|---|---|
| Adroddiad i’r: | BGC Conwy a Sir Ddinbych |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 18 Medi 2018 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Judith Greenhalgh – Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyng. Hugh Evans, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych<br>Helen Wilkinson, PW Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Wendy Jones, PW Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy |
| Awdur yr Adroddiad: | Nicola Kneale, Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol,<br>Cyngor Sir Ddinbych |
| Teitl: | Y Camau Nesaf o dan Flaenoriaeth ‘Ymrymuso Cymunedau’ |

1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?
   Camau arfaethedig nesaf o dan Flaenoriaeth ‘Ymrymuso Cymunedau’, yn dilyn gweithdy wedi ei ddylunio a’i ddarparu gan Gyngor Sir Ddinbych gyda chefnogaeth gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Chymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?
   I hysbysu’r BGC o’r broses a ddilynir i ddatblygu’r camau nesaf, a gwneud argymhellion am y Camau Nesaf, beth fyddai'n creu llwyddiant, a phwy ddylai fod ynghlwm â dylunio a darpariaeth fanylach.

3. Beth yw’r Argymhellion?

3.1 Dylai’r BGC nodi’r broses a ddilynir, a chytuno eu bod yn sicr bod y broses yn gadarn.

3.2 Bod y BGC yn ystyried y syniadau a gododd yn ystod y broses, nodi’r argymhellion, a rhoi adborth er mwyn cytuno ar yr argymhellion hynny. Dylai’r BGC hefyd ystyried pa fath o ymgysylltu pellach sydd ei angen fel mae’r camau nesaf yn symud yn eu blaenau.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn dilyn cymeradwyo Cynllun BGC Conwy a Sir Ddinbych, cytunodd Cyngor Sir Ddinbych arwain datblygiad y Camau Nesaf o dan flaenoriaeth Ymrymuso Cymunedau, gyda chefnogaeth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy, ac ystyried gweithgareddau o dan y themâu canlynol (gan gydnabod eu bod yn cyfrannu i wydnwch cymunedau):

   **i.** Tai
   **ii.** Cyfleoedd cyflogaeth
   **iii.** Cynyddu Gallu
   **iv.** Darpariaeth o Gefnogaeth Iechyd a Lles
   **v.** Seilwaith

4.2 Cynhaliwyd gweithdy yn Rhuthun ar 27 Mehefin. Cadwyd cofrestr presenoldeb ar y diwrnod, ond yn anffodus dim ond 27 o bobl a’i arwyddodd. Roedd y gwahoddiad i fynychu yn un agored a gylchredwyd drwy bob sefydliad partner ac atebodd 60 o swyddogion gyda’u bwriad i fynychu (gweler Atodiad A). Er na allai pawb fynychu yn y pen draw (achosodd damwain ar y ffordd drafferthion i rai), rydym yn gwybod wedi cyfrif pennau bod o leiaf 40 o bobl yn bresennol ar y diwrnod, gyda chynrychiolaeth dda ar draws sefydliadau partner. Byddwn yn parhau â’n sgwrs gyda’r grŵp hwn drwy roi adborth iddynt am ganlyniad y gweithdy a phenderfyniad y BGC.

4.3 Wrth gadw at egwyddor BGC o adeiladu ar addewidion presennol cynlluniau lles gan sefydliadau er mwyn chwilio am gyfleoedd lle byddai cyd-weithio yn ychwanegu gwerth, cyflwynwyd gwybodaeth i gynrychiolwyr am addewidion presennol o dan bob thema (gweler Atodiad B). Yna gofynnwyd iddynt drafod opsiynau cyd-weithio yn fanwl (gweler Atodiad C). Manylir ar ganlyniad y gweithdy yn Atodiad D.

4.4 Ystyriwyd y canlyniad gan swyddogion arweiniol o Gyngor Sir Ddinbych, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy, ac awgrymir y prosiectau yn Atodiad E fel y Camau Nesaf, gan eu bod yn cynnig potensial cryf i gyd-weithio (lle mae cyd-weithio'n ychwanegu gwerth yn hytrach na dyblygu gwaith), a chanlyniadau pendant yn cael eu nodi. Mae awgrymiadau ar gyfer budd-ddeiliaid allweddol/a thîm prosiect hefyd wedi’u cynnwys yn Atodiad E.

4.5 Argymhellir bod y BGC yn ystyried a oes angen ymgysylltu pellach o safbwynt y flaenoriaeth ymrymuso’r gymuned ac mae’n nodi’r awgrym gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych fod partneriaid y BGC yn ystyried gwneud ymrwymiad ar y cyd i gyd-gynhyrchu fel y dull gweithredu a fydd yn arwain at ymrymuso’r gymuned a sicrhau bod y sgiliau a’r technegau gan y gweithlu, a neilltuo adnoddau er mwyn ymgorffori’r dull gweithredu hwn mewn dulliau gweithredu gwasanaethau, cyflenwi ac ymgysylltu er mwyn sicrhau bod ymrymuso’r gymuned yn cael ei gyflawni'n ymarferol.

Gall y syniad am seilwaith pwyntiau trydanu gael eu hystyried o dan flaenoriaeth yr Amgylchedd.